

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm

**PRESENT:** County Councillor Meirion Howells (Chairman)  
County Councillor Su McConnel and Ann Webb (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn, Peter Strong, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Maria Stevens, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas and Armand Watts

### OFFICERS IN ATTENDANCE:

Matt Phillips	Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Paul Matthews	Prif Weithredwr
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Nicola Perry	Uwch Swyddog Democratiaeth
Frances O'Brien	Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant
Ian Saunders	Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy
Diane Corrister	Rheolwr Gwasanaeth Diogelwch a Sicrwydd Ansawdd
Charlotte Drury	Service Manager - Well-being and Family Support

### APOLOGIES:

County Councillors Dale Rooke

#### 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

#### 2. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

#### 3. Ethol Cadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/24

Anerchodd yr Arweinydd y Cyngor a diolchodd i'r Cynghorydd Sir Wright am ei blwyddyn yn y rôl fel Cadeirydd a myfyriodd ar waith a chyraeddiadau'r flwyddyn ddiwethaf. Adleisiodd Arweinwyr Grwpiau yr hyn a ddywedodd yr Arweinydd.

Cynigodd y Cynghorydd Sir Ian Chandler, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Mary Ann Brocklesby, fod y Cynghorydd Sir Meirion Howells yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm

Fynwy am y Flwyddyn Ddinesig 2023/24. Yn dilyn pleidlais, cytunwyd i ethol y Cyngorydd Sir Meirion Howells yn Gadeirydd.

Gwnaeth y Cyngorydd Sir Meirion Howells y Datganiad Derbyn y Swydd a'i lofnodi a diolchodd i'r Aelodau am eu cefnogaeth. Diolchodd i'r Cyngor am y cyfle a chyflwynodd ei wraig Sarah, ac o bryd i'w gilydd, ei fam Mrs Iris Howells, fel ei gyfarwr am y flwyddyn yn y swydd.

### **4. Penodi Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/24**

Croesawodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y Cyngor.

Cynigodd y Cyngorydd Sir Mary Ann Brocklesby ac eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Sir Ian Chandler y dylid penodi'r Cyngorydd Sir Su McConnel yn Is-Gadeirydd y Cyngor Sir am y Flwyddyn Ddinesig 2023/24.

Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd penodi'r Cyngorydd Sir Su McConnel yn Is-Gadeirydd. Arwyddodd y Cyngorydd Sir McConnel y Datganiad Derbyn y Swydd. Diolchodd i'r Cyngor am eu cefnogaeth a chyflwynodd Roger Harris fel ei chyfarwr am y flwyddyn

### **5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill 2023**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

### **6. Ethol Arweinydd y Cyngor Sir a derbyn hysbysiad o ddirprwyaethau'r Arweinydd (penodiadau i'r Cabinet)**

Enwebodd y Cyngorydd Sir Angela Sandles y Cyngorydd Sir Mary Ann Brocklesby yn Arweinydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/24. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Sir Sara Burch.

Nid oedd unrhyw enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais penodwyd y Cyngorydd Sir Mary Ann Brocklesby yn Arweinydd.

Manteisiodd y Cyngor Brocklesby ar y cyfle i amlygu llwyddiannau a chyhoeddodd fod Plaid Lafur Cymru wedi cytuno ar drefniant clymblaid gyda'r Blaid Werdd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngorwyr Sir Tudor Thomas a Catherine Fookes am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cyhoeddwyd y Penodiadau Cabinet fel a ganlyn:

- Y Cyngorydd Sir Paul Griffiths - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Bywoliaethau Cynaliadwy.
- Y Cyngorydd Sir Rachel Garrick – Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau.
- Y Cyngorydd Sir Martyn Groucutt – Aelod Cabinet Addysg.
- Y Cyngorydd Sir Ian Chandler – Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch.
- Y Cyngorydd Sir Sara Burch – Aelod Cabinet dros Gymunedau Cynhwysol a Gweithgar.
- Y Cyngorydd Sir Catrin Maby – Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd.
- Y Cyngorydd Sir Angela Sandles – Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu.

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held  
at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm**

## **7. Cynrychiolaeth o Grwpiau Gwleidyddol**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu yr adroddiad i'r Cyngor ar adolygu cynrychiolaeth gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y cyrff y mae'r Cyngor yn gwneud penodiadau iddynt. Mae'r Cyngor bellach yn cynnwys 4 grŵp gyda chreu'r Grŵp Annibynnol Gwyrdd a'r newid cydamserol yn aelodaeth y Grŵp Annibynnol o 6 i 4 Aelod.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Bod y Cyngor yn penderfynu derbyn yr adroddiad (a'r atodiadau) fel adolygiad o dan Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac i ddechrau dyrannu'r niferoedd a nodir isod i bwyllgorau cyffredin fel cynrychiolaeth deg:**

<b>Pwyllgor</b>	<b>Llafur Cymru</b>	<b>Ceidwadwyr Cymru</b>	<b>Grŵp Annibynnol</b>	<b>Grŵp Annibynnol Gwyrdd</b>
Craffu (x4) (9)	16	15	3	2
Trwyddedu a Rheoleiddio (12)	6	5	1	0
Cynllunio (16)	8	6	1	1
Gwasanaethau Democrataidd (12)	6	4	1	1
Archwilio – rhaid bod 4 aelod lleyg	4	3	1	0
Hawl gyfranedol	40	33	7	4

## **8. Penodiadau i bwyllgorau**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu yr adroddiad er mwyn i'r Cyngor benodi pwyllgorau ynghyd â'u haelodaeth a'u cylch gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

**Ar ôl cael pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Penodi pwyllgorau ynghyd â'u haelodaeth fel y nodir yn yr adroddiad, a'u cylch gorchwyl ynghlwm fel atodiadau.**

**Yn dilyn pleidlais, etholwyd y Cynghorydd Sir Ann Webb yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

## **9. Penodiadau i Gyrff Allanol**

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cydraddoldeb ac Ymgysylltu yr adroddiad er mwyn i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr i wasanaethu ar gyrrff allanol.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Mae'r Cyngor yn nodi'r penodiadau a wnaed yn CCB 2023 ar gyfer tymor y Cyngor ac yn cadarnhau neu'n diwygio'r penodiadau y mae angen eu hadnewyddu'n flynyddol.**

#### **10. Adolygu'r Cyfansoddiad**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu yr adroddiad i'r Cyngor ei ystyried i ddiweddarau Cyfansoddiad CSF.

Mynegwyd pryderon na chafwyd unrhyw adborth gan swyddogion ynghylch materion craffu a godwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Roedd y pryder yn ymwneud â CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) a CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog) yn cael eu cwmpasu o dan un pwyllgor o'r enw CYSAG/SAC. Roedd cyfarfod diweddar CYSAG heb gworwm ac felly ni ymgynghorwyd â'r pwyllgor presennol ynghlŷn â newid y teitl ac mae'r cyfansoddiad presennol yn awgrymu y dylid adnabod y pwyllgor fel ACACYS

Roedd pryder ynghylch y defnydd o'r term rhyw gan na allai aelodau benywaidd gwyno am wahaniaethu ar sail rhyw gan aelodau gwrywaidd fel achos o dorri'r Cod Ymddygiad, neu i'r gwrthwyneb. Roedd hyn wedi'i godi yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ond ni dderbyniwyd unrhyw adborth.

Awgrymwyd gohirio'r eitem nes bod y materion a godwyd wedi cael sylw.

Eglurodd Cadeirydd CYSAG/SAC mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r materion sy'n ymwneud â threfniadau CYS ac felly ei bod yn briodol i'r Cyngor wneud y penderfyniad.

Roedd y Swyddog Monitro wedi cydnabod nad oedd cworwm yng nghyfarfod CYSAG, ond ni chafwyd unrhyw ymatebion i ohebiaeth e-bost ddilynol. Roedd yn fodlon bod y newidiadau yn y Cyfansoddiad yn adlewyrchu deddfwriaeth yn gywir.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Cyfansoddiad sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau.**

#### **11. Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2022-25**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Cyngor ynghylch perfformiad yn erbyn y strategaeth Rhianta Corfforaethol blaenorol 2017-2022 a'r Cynllun Gweithredu a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc â Phrofiad Gofal.

Ategodd y Cynghorydd Sir Penny Jones y polisi a diolchodd i'r Cynghorydd Sir Tudor Thomas am ei gyfraniad fel Is-Gadeirydd y Panel Rhianta Corfforaethol, gan gydnabod ei rôl allweddol yn cefnogi pobl ifanc gan ddangos gofal a thosturi.

Gwnaed sylw ynghylch llesiant cyffredinol a chydraddoldeb iechyd a gofynnwyd i swyddogion a fu ymgynghori â'r bwrdd iechyd. Cytunodd y swyddogion i ymateb yn ysgrifenedig.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

### Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm

Datganodd y Cyngorydd Sir Paul Pavia fuddiant nad oedd yn rhagfarnu fel Ymgynghorydd Cyswllt gyda Practice Solutions a gofynnodd gwestiwn ynghylch effaith Pythefnos Gofalwyr Maeth, ac a oedd yna gynnydd o ran y nifer a oedd wedi 'cofrestru'. Eglurodd swyddogion fod ymgyrch recriwtio barhaus, ac yn dilyn ymgyrch lwyddiannus cyn y Nadolig, roedd 6 asesiad yn mynd rhagddynt. Nid oedd y trosiant o faethwyr yn peri pryder arbennig, ac mae poblogaeth sefydlog o ofalwyr maeth, sy'n tueddu i fod yn deyrngar iawn. Mae yna broffil hŷn ond oedran cyfartalog y bobl sy'n dod i ofalwyr maeth yw 45 i 55.

Mae'r strategaeth faethu yn canolbwyntio ar sgiliau a chryfderau a'r ffordd orau o gefnogi gofalwyr maeth.

Eglurodd swyddogion fod aelodau'r bwrdd iechyd yn eistedd ar y Panel Rhianta Corfforaethol, a bod gweithwyr iechyd yn chwaraewyr allweddol yn yr holl waith o lunio'r strategaeth, a gwaith partneriaeth.

**Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhelliad:**

**Bod yr aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2022-2025.**

**12. Cwestiynau'r Aelodau:**

**13. O'r Cyngorydd Sirol Paul Pavia i'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am ofal stryd a manau cyhoeddus**

*A wnaiff yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am ofal strydoedd a manau cyhoeddus ddatganiad am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i wella cymeriad manau trefol y sir?*

Eglurodd y Cyngorydd Sir Paul Griffiths, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi a Bywoliaethau Cynaliadwy, fod y cyfraniadau yr ydym yn eu gwneud i ansawdd ein trefi yn cynnwys

- Y cynnydd yr ydym yn ei wneud ar ein Cynllun Datblygu Lleol, a fydd yn creu'r twf mewn swyddi a phobl sy'n angenrheidiol i gynnal ein trefi.
- Y cynnydd ar ein cynllun trafnidiaeth lleol a fydd yn caniatáu'r symudiad angenrheidiol o bobl i mewn ac allan o'n trefi.
- Rhaid i'n cyfraniadau gynnwys datblygiad pellach ein perthynas â Chynghorau Tref, sy'n ganolog i ddatblygu ein trefi.
- Y cynnydd yr ydym yn ei wneud gyda'r Cynlluniau Creu Lleoedd sy'n ymarfer ar y cyd â phob un o'n Cynghorau Tref.

Tynnodd y Cyngorydd Griffiths sylw at y ffaith bod y partneriaethau gyda Chynghorau Tref wedi arwain at sefydlu timau tref, sy'n cymryd cyfrifoldeb am ein gofal strydoedd, a chyfeiriodd at y cymorth y mae'n rhaid i ni ei ddarparu i fusnesau a sefydliadau cymunedol sy'n gweithio i greu'r rhesymau ein bod yn y trefi.

*Gadawodd y Cyngorydd Sir Lisa Dymock y cyfarfod am 4:38 PM*

At hyn, dywedodd y Cyngorydd Pavia fod nifer o drigolion lleol wedi cael eu codi ynghylch y cynnydd mewn arwyddion stryd a ffyrdd a gofynnodd pa gamau sy'n cael eu cymryd i fonitro nifer yr arwyddion sy'n cael eu gosod a pha effaith y maent yn ei chael ar strydlun, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu symleiddio arwyddion i leihau dryswch ymhlith y cyhoedd.

## **MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

### **Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Mai, 2023 at 2.00 pm**

Eglurodd y Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd, mewn perthynas â'r terfynau cyflymder newydd, bod gofyniad penodol ynghylch arwyddion ailadrodd, ond bydd hyn yn newid gyda'r cyflwyniad llawn. Mae cofrestr o arwyddion wedi'u goleuo, ond nid ar gyfer arwyddion heb eu goleuo. Roedd y Cynghorydd Maby yn gwerthfawrogi'r pryderon ac yn meddwl y byddai cydweithio gyda Chynghorau Tref yn ddefnyddiol.

#### **14. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 22ain Mehefin 2023**

Wedi ei nodi.

**The meeting ended at 4.40 pm**